

Disgrifiad Swydd:Cynorthwy-ydd Ymchwil

Cyfadrn:	Y GYFADRAN MEDDYGAETH, IECHYD A GWYDDOR BYWYD
Adran/Pwnc:	Meddygaeth
Cyflog:	Gradd 7: £34,610 to £38,784 y flwyddyn
Oriau gwaith:	7 awr yr wythnos (0.2% CALI)
Nifer y Swyddi:	1
Contract:	Rôl am gyfnod penodol o 12 mis yw hon
Lleoliad:	Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton

Prif Ddyletswyddau	1. Recriwtio cyfranogwyr astudiaeth 2. Casglu data a samplau a'u dadansoddi 3. Mewnbynnu data, caboli data a'i ddansoddi
	4. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, creu syniadau gwreiddiol a chyflwyno canlyniadau. 5. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi. 6. Bod yn uchel eich cymhelliant a defnyddio eich menter â'r nod o ganfod ffyrdd addas o fynd i'r afael â heriau, a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen. 7. Rhyngweithio mewn modd cadarnhaol a phroffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadrn ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu allan iddi fel y bo'n briodol, megis mewn diwydiant a sefydliadau cyhoeddus. 8. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadrn i'w helpu i weithredu'n ddidrafferth a helpu i godi ei broffil ymchwil allanol. 9. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiadau ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth. 10. Pan ofynnir i chi, bod yn gynrychiolydd neu'n aelod o bwyllgorau, gan ddefnyddio'r cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol eich hun. 11. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygiadau datblygiad proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant. 12. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrrff perthynol eraill. 13. Glynu wrth brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion llyfrau log y prosiect yn cael eu hanfon at y Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.
Dyletswyddau Cyffredinol	14. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol. 15. Ymgymryd â'r rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisiau diogelwch, iechyd a chynaliadwydd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd. 16. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. 17. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadrn/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.
Manyleb Person	Meini Prawf Hanfodol: 1. Gradd yn Iechyd Cyhoeddus neu bwnc cysylltiedig agos. 2. Tystiolaeth o'r gallu i ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir a chyfrannu at y gwaith hwn.

	3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect. 4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil. 5. Profiad blaenorol o gynnal ymchwil meintiol, casglu data a'i ddadansoddi 6. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus 7. Profiad blaenorol mewn cymunedau sy'n ceisio noddfa 8. Yn rhugl yn Ffarsi Meini Prawf Dymunol 9. Profiad blaenorol o ddulliau labordy gan gynnwys ELISA, BCA, etc.
Lefel Iaith Gymraeg	Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course. Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.
Gwybodaeth Ychwanegol	Ymholiadau anffurfiol: laura.galante@abertawe.ac.uk Mae gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yn ofynnol a rhaid i hwn gael ei dderbyn a'i asesu cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau

